

## Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Josh Phillips

Defnyddio a rheoli porthiant y gaeaf a phwysigrwydd geneteg yn y diwydiant defaid

Lloegr a'r Alban

Mehefin a mis Tachwedd 2019

### Cefndir

Ers gadael y coleg ym 2016, dechreuais weithio oddi ar y fferm fel rhan o fusnes contractio a ffensio fy nhad gan weithio gartref ar benwythnosau ar ein fferm deuluol 300 erw, gyda 90 erw yn cael eu rhentu. Rydym yn cadw 600 o famogiaid ar hyn o bryd ac rydym yn anelu at gynyddu niferoedd i 1,000.

### Ymweliadau'r Gyfnewidfa Reolaeth

SRUC – Fferm Kirkton, Ucheldiroedd Gorllewin yr Alban



Fferm Kirkton yw canolfan ymchwil ucheldir SRUC yn Ucheldiroedd Gorllewin yr Alban sy'n amrywio o 200 i 1,025m o ran uchder gyda glawiad blynyddol o 2,528mm. Ar hyn o bryd, maent yn cadw 1,200 o famogiaid, yn cynnwys Defaid Penddu'r Alban y cofnodir eu perfformiad a defaid Llŷn a ychwanegwyd yn 2006, a'u cadw gyda'r Defaid Penddu yn 2013.

Mae'r defaid Penddu wedi'u cofnodi ers 1998 mewn 3 diadell wahanol. Mae un ddiadell yn cael ei dewis ar sail Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVs) yn unig (Dethol), mae'r ail yn cael ei dewis ar sail edrychiad yn unig (Diwydiant), a chedwir y trydydd i gynrychioli diadell fynydd gyffredin (Rheolaeth). Mae sgôr y ddiadell Dethol wedi codi o sgôr cyfartalog mynegai o 30 yn 1999 i 370 yn 2011, sy'n dangos gwelliant o £4 o ran allbwn y pen o'i gymharu â'r ddiadell Rheoli a £2.50 y pen o'i gymharu â'r ddiadell Diwydiant. Bu cynnydd o 100 yn y sgôr mynegai yn y ddiadell Diwydiant dros y 12 mlynedd.

Ers ychwanegu'r ddiadell o ddefaid Llŷn ym 2013, sydd wedi cymryd lle diadell Diwydiant y defaid Penddu, mae'r defaid Llŷn wedi perfformio'n well na'r defaid Penddu o ran sganio,

ŵyna a diddyfnu. Er hynny, mae'r defaid Dethol yn diddyfnu ar 2kg y pen yn drymach ar 36kg. Yn 2018, dechreuwyd cofnodi faint o borthiant yr oeddent yn ei fwyta a'r amser nes oeddent yn cael eu lladd. Roedd y defaid Llŷn yn barod yn gynt - 59 diwrnod yn bwyta 210g o borthiant y dydd o'i gymharu â 2,750g ar gyfer y defaid Penddu.

### **David Girvan – Fferm Corrymony, Swydd Inverness**

Ar hyn o bryd, mae Fferm Corrymony yn cadw diadell o 1,400 o famogiaid gyda chymysgedd o ddefaid Llŷn a defaid sy'n bwrw eu gwllân, yn wreiddiol allan o ddefaid Wiltshire Horn. Maent hefyd yn cadw uned o heffrod Stabiliser a Stabiliser croes ar hyn o bryd. Caiff mamogiaid eu porthi ar fetys porthiant o fis Ionawr tan fis Mawrth i'r tir gael cyfle i orffwys fel y gall y borfa dyfu ar gyfer amser ŵyna.



### **John Scott – Fferm Fearn, Swydd Ross**

Mae Fferm Fearn yn cadw 6,000 o famogiaid a 120 o fuchod ar 4 daliad gwahanol. Mae'r defaid a gedwir i fagu hyrddod yn cynnwys Aberfield, Texel, Suffolk a Beltex; gyda diadell fasnachol o famogiaid Aberfield croes yn bennaf. Caiff hyrddod sydd wedi'u magu ar y fferm eu cadw ar borfa'n unig a'u gwerthu oddi ar y fferm yn arwerthiant 'Great from Grass Ram Sale'. Cofnodir perfformiad yr holl hyrddod (cofnodir eu pwysau deirgwaith) ac maent yn cael sgan uwchsaïn o'r cefn i roi mynegai. Mae mamogiaid yn cael eu porthi ar fetys porthiant amrywiol; y prif fath yw Geronimo, ac mae Robbos, Brigadier a Jamon yn cael eu tyfu hefyd. Ar gost o 4c/kgDM, cânt eu porthi â silwair meillion coch protein uchel o fis Ionawr hyd at 2 wythnos cyn ŵyna lle rhoddir betys porthiant yn ychwanegol iddynt. Mae stoc ifanc yn cael eu porthi ar amrywiaeth o swêds gan gynnwys Lomond, Gowrie a Ruta tofte.



### **Neil a Debbie McGowan – Incheoch, Swydd Perth**

Mae Neil a Debbie McGowan yn cadw 1,200 o famogiaid ar eu fferm. Mae'r mwyafrif yn ddefaid Llŷn a Texel pedigri a chofnodir eu perfformiad. Caiff 80 o hyrddod eu gwerthu mewn arwerthiant ar y fferm. Mae ganddynt hefyd fuches o 200 o wartheg pedigri – cofnodir eu perfformiad a chânt eu cadw dan amodau masnachol. Caiff mamogiaid eu cofnodi ar Signet ynghyd â sgôr mynegai wyna gartref. Mae ganddynt bolisi difa llym gydag unrhyw ddefaid sy'n agored i broblemau ymwrthedd i driniaeth llyngyr yn cael eu difa.



### **Alex Brewster – Rotmell, Swydd Perth**

Mae Alex Brewster yn cadw defaid Penddu wedi'u croesi â hwrdd Aberfield er mwyn gwerthu wŷn benyw. Ei nod ar gyfer y dyfodol yw cael brîd cymysg i wella ansawdd y cig ar y plât. Mae hefyd yn cadw buches o wartheg Aberdeen Angus pur a ddewiswyd ar sail eu perfformiad ar y borfa. Mae'r holl borfa wedi cael ei phori drwy system gylchdro gyda gwartheg yn clirio'r borfa ar ôl y defaid er mwyn lleihau'r baich llyngyr, sydd wedi arwain at drin niferoedd llawer llai ar gyfer llyngyr yn y 4 blynedd diwethaf. Roedd ganddo bwyslais

helaeth ar borfa o rywogaethau cymysg i leihau'r baich llyngyr ymhellach a gwella amrywiaeth y pridd.



### **Michael Blanche – Fferm Culteuchar, Swydd Perth**

Roedd mamogiaid Michael yn gymysgedd o ddefaid Easycare a defaid Texel sy'n bwrw eu gwllân i greu mamog nad oedd angen ei chneifio. Roedd angen mewnbwn isel ac maent yn perfformio'n dda ar system bori cylchdro.

### **John Ritchie – Fferm Montalt, Swydd Perth**

Roedd Fferm Montalt yn cadw 720 o famogiaid, ond maent yn symud tuag at ddiadell gaeedig yn seiliedig ar ddefaid Aberfield. Roedd ganddynt hefyd 80 o wartheg Saler. Mae'r mamogiaid yn wyna y tu allan yn ystod canol mis Ebrill ar gaeau moel, gyda swêds ynddynt. Bob 2-3 diwrnod defnyddir ffens drydan i symud y mamogiaid er mwyn i'r caeau gael seibiant o 90 diwrnod, gydag wyna yn cael eu diddyfnu yn 36kg neu'n 95 diwrnod. Mae'r wyna yn cael eu pwyso bob 3 wythnos trwy system gofnodi EID. Bydd mamogiaid yn mynd yn ôl i system gylchdro 2 wythnos cyn cael eu troi at yr hwrdd, ac yna caiff yr holl borfa ei phori dros y gaeaf nes bod y glaswellt yn dod i ben. Yna caiff y mamogiaid eu symud i gae o swêds, a'u porthi â haidd a soia 3-6 wythnos cyn wyna, gan ddibynnu ar eu cyflwr.



### **Yvonne Jones – Fferm Killernie, Fife**

Ers symud i Killernie dair blynedd yn ôl, newidiwyd y mamogiaid o ddefaid Penddu yr Alban a system cofnodi perfformiad (yr 20 mlynedd diwethaf) i ddefaid Easycare gyda chanran o Texel sy'n bwrw ei gwlan (gan gofnodi perfformiad) i helpu i gael y cyfansoddiad gorau. Mae'r fferm yn cael ei ffensio ar hyn o bryd i gynyddu nifer y padogau er mwyn hwyluso'r system bori cylchdro i'r mamogiaid. Mae'r hesbinod yn cael eu troi at yr hwrdd a'u cadw dan do drwy'r gaeaf, tra bod y mamogiaid allan ar silwair cyn dod i mewn i wyna ganol Ebrill.



### **James Logan – Pirntaton, Swydd Selkirk**

Mae James Logan yn cadw 3,000 o famogiaid, gan gynnwys mamogiaid Llŷn a Romney croes; 120 o wartheg sugno, y mwyafrif yn Aberdeen Angus gyda rhywfaint o Stabiliser; a 320 o ewigod bridio. Mae polisi rheoli llym ar gyfer y mamogiaid a gwneir hollt yn y glust i nodi unrhyw ddefaid problemus. Caiff y mamogiaid yma eu rhoi yn y ddiadell B a chânt eu troi at hyrddod Suffolk a fagwyd gan y ffermwr. Mae'r mamogiaid yn cael eu stocio'n sefydlog ar borfa o 1,200-1,400kgDM/ha ac yn ddiweddar maent wedi dychwelyd i drefn o stocio'n sefydlog nes y cânt eu diddyfnu, gan gynyddu eu pwysau 4kg. Bydd mamogiaid ac wŷn wedyn yn pori ar system gylchdro ar ôl diddyfnu. Caiff mamogiaid eu cadw ar system gylchdro cyn wyna, gan eu symud bob 1-2 diwrnod i helpu i lanhau'r borfa a'i chodi i safon dda erbyn dechrau'r gwanwyn. Caiff 9ha o fetys porthiant ei dyfu ar gyfer mamogiaid cyfoen fel porthiant ychwanegol wrth i dwf y borfa arafu, a thyfir 26ha ychwanegol o redstart ar gyfer yr ewigod a'r buchod sych, a 2ha o swêds ar gyfer wŷn gyrfod Texel, Suffolk ac Abertex.





### **Adrian Coombe – Fferm Dupath, Cernyw**

Mae Dupath yn cadw diadell o 500 o ddefaid miwl North Country Cheviot, a'r cyfan yn dod o un fferm ger Skipton. Mae'r holl famogiaid yn rhan o'r cynllun 'RamCompare'. Nid yw Adrian wedi dod o hyd i frîd arbennig sy'n sefyll allan, gan fod gan bob hwrdd fynegai uchel gyda gwahaniaeth o £5 rhwng y 5% uchaf a'r 25% uchaf o hyrddod. Roedd pob brîd a ddefnyddiwyd ag ŵyn a fagwyd ar borfa'n unig gyda'r rhai cyntaf yn cael eu gwerthu ar ôl 14 wythnos, gydag 8 yn fwy na 50kg. Eleni, defnyddiwyd hyrddod Texel, Hampshire, Meatlinc a Shropshire.



### **Tim White – Defaid sy'n bwrw eu gwllân, Swydd Wilton**

Mae Tim yn cadw diadell Exlana sy'n pori gwastadeddau Caersallog a'r ardal gyfagos ar dir wedi'i osod am gyfnod byr. Mae Tim wedi bod yn datblygu'r brîd yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf gan ddechrau â defaid Wiltshire Horn a Llŷn gyda bridiau eraill sy'n bwrw eu gwllân. Cofnodwyd perfformiad pob mamog ers y dechrau. Erbyn hyn mae'n cadw diadell o 1,000 o ddefaid Exlana gyda ffermydd eraill yn helpu i fridio defaid beinw a hyrddod sydd i'w gwerthu. Gwerthwyd 100 o hyrddod eleni gyda'r mwyafrif yn cael eu gwerthu mewn arwerthiant ar y fferm ger Tiverton. Caiff nifer fawr o ŵyn eu dewis i'w trin rhag cael llyngyr a chlwy'r traed a chofnodir hyn gan ddefnyddio SIG. Mae'r nodweddion hyn yn golygu mai

ychydig iawn o fugeilio sydd ei angen sy'n golygu ei bod yn haws lleihau costau llafur. Mae cost cofnodi tua £13 y pen, ac eithrio cost llafur.

### **Matt Harding - Bentley Suffolks, Swydd Warwick**

Mae Bentley Suffolks yn cadw diadell o 400 o famogiaid, sy'n cynnwys cymysgedd o ddefaid Aberblack, Aberfield a Suffolk pedigri. Cofnodir perfformiad pob mamog ac oen gyda hyrddod yn cael eu gwerthu oddi ar y fferm, a rhai'n cael eu gwerthu ym mhrif arwerthiant NSA yn Llanelwedd. Rhoddir porthiant i'r holl ŵyn tra eu bod yn cael eu gaeafu oddi ar y fferm ar dir â gerllaw am gost o £91 yr erw (roedd y costau hyn yn cynnwys hau hadau a gwrtaith). Cadwyd 205 o ŵyn am 16 wythnos ar 40 erw o faip. Roedd yr ŵyn yma ar gyfartaledd yn pwyso 50kg pan gawsant eu rhoi yn y cae maip ac wrth adael roeddent ar gyfartaledd yn 90kg sy'n rhoi DLWG cyfartalog o 302g/dydd. Mae mamogiaid hefyd yn cael eu gaeafu oddi ar y fferm ar faip, ond oherwydd y tywydd gwlyb yn ystod yr hydref maent bellach yn pori sofl ceirch ar dir gerllaw gan nad oedd modd hau'r tir oherwydd y tywydd.



### **Casgliad**

O ganlyniad i'r ymweliadau uchod, mae digon o syniadau i mi eu hystyried. Y peth cyntaf y byddaf yn ei wneud yw dechrau gweithredu polisi lladd llawer llymach, gan y bydd yn helpu i leihau costau a llafur. Dylai hyn hefyd ei gwneud yn haws cynyddu nifer y mamogiaid gan y bydd angen rhoi llai o sylw i'r mamogiaid, felly ni ddylai'r baich gwaith gynyddu'n sylweddol yn sgil y cynnydd mewn niferoedd. Mae'r ymweliadau wedi gwneud i mi edrych llawer mwy ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a phwysigrwydd mesur pob agwedd, a fydd, gobeithio, yn diogelu ein busnes yn y dyfodol. Ar gyfer gaeafu allan, rwy'n credu mai betys porthiant fydd y dewis gorau i lenwi'r bwch pan fydd prinder porthiant drwy'r gaeaf gan fod y costau y pen yn isel iawn - 5c y dydd. Bydd hyn yn rhatach nag anfon mamogiaid oddi ar y fferm dros y gaeaf. Dydw i ddim yn meddwl y byddaf yn cofnodi perfformiad gan nad wyf yn teimlo y gellir cyfiawnhau'r costau ar system fasnachol heb werthu stoc bridio o'r fferm, er,

rwy'n bendant wedi gweld manteision cofnodi perfformiad hyrddod ac rwy'n meddwl eu bod nhw'n werth y gost. Ni allaf ddiolch digon i bawb rwyf wedi eu cyfarfod ar y daith gan fod y wybodaeth a rannwyd wedi bod yn werthfawr iawn.